23-05 (04)

**Eitem:** 7

**Teitl:** Adroddiad ein 100 Diwrnod Cyntaf

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | Ystyried a chymeradwyo. |
| **Amseru / Timing** | Yn unol â rhaglen waith y Bwrdd |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>ystyried y ddogfen ddrafft 'Adroddiad 100 diwrnod cyntaf'; a<br>- cytuno i'w gyhoeddi a'i ddosbarthu. |
| **Risg / Risk** | Enw da |
| **Cyllid / Finance** | Dim yn berthnasol |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective/Amcan Rhaglen/ Programme objective** | Dim yn berthnasol |
| **Cydraddoldeb / Equality** | Adroddiadau dogfennau ar y camau a gymerwyd i ddatblygu ein dull o ymdrin ag ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** Ein Cwsmeriaid / Partneriaid / Rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein corff ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r Brif Weithredwraig wedi clirio'r papur hwn. |
| **Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Ebrill 2023 cofnod 9.3 Bwrdd Llais |
| **Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting** | Y Brif Weithredwraig |
| **Dyddiad / Date** | 19/07/23 |

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



## Cefndir / Background

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Bwrdd Llais ddogfen 'Ein 100 diwrnod cyntaf'. Amlygodd y ddogfen hon ein hymrwymiad a'n hymdrech i gymryd camau cynnar i helpu i wneud gwahaniaeth go iawn. Mae'n nodi ein bwriad i weithio gyda phobl yng Nghymru i adeiladu sylfaen gref lle mae parch at y naill a'r llall, cynwysoldeb ac annibyniaeth yn gyrru popeth a wnawn.

Yn ei gyfarfod Bwrdd cyhoeddus ym mis Ebrill 2023, cytunodd Bwrdd Llais y dylid llunio dogfen i adrodd ar gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen 'Ein 100 diwrnod cyntaf'.

## Manylion / Detail

Mae'r adroddiad drafft yn Atodiad A yn crynhoi'r camau a gymerwyd, a'r cynnydd a wnaed gan Llais i gyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ein dogfen 'Ein 100 diwrnod cyntaf'.

Datblygwyd y ddogfen o adroddiadau a ddarparwyd gan bob un o'r 7 Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a Chyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau a Gweithrediadau Corfforaethol.

Unwaith y cytunir ar y cynnwys, bydd dyluniad yr adroddiad yn cael ei gwblhau, a bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan a'i dosbarthu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Bydd ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg, Saesneg a fersiynau hawdd eu deall. Bydd fformatau hygyrch eraill ar gael ar gais.